

Y Gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (HERC)

Dyddiad: 14 Medi 2026

Cyfeirnod: Medr/2026/46

At sylw: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch

Ymateb erbyn: 12 Chwefror 2027 a 23 Ebrill 2027

Am ragor o wybodaeth: ymchwil@medr.cymru

Crynodeb:

Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu manylion am ddyraniadau 2026-2027 ar gyfer sefydliadau sy'n gymwys i dderbyn cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch.



Cyflwyniad

1. Mae'r Gyfalaf Ymchwil Addysg Uwch wedi bod yn cael ei darparu i sefydliadau cymwys yng Nghymru ers 2011. Mae'r cyhoeddiad hwn yn hysbysu sefydliadau addysg uwch (SAU) am y dyraniadau ar gyfer 2026-2027 ac yn darparu canllawiau ar y gofynion adrodd a monitro cysylltiedig.

Cefndir

2. Mae'r Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach (yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg gynt) wedi cadarnhau y bydd yn darparu cyllid HERC i'r pedwar corff ariannu addysg uwch (AU) yn y DU¹ yn 2026-2027. Bydd yr Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach yn darparu cefnogaeth o £3,985,554 yng Nghymru gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu arian cyfatebol, a fydd yn dod â chyfanswm y gronfa i £7,971,108.

Newidiadau i gyllid HERC

3. Ym mis Mawrth 2026, cadarnhaodd Gweinidog Gwyddoniaeth y DU mewn llythyr at Lywodraeth Cymru y byddai cyllid HERC i Gymru yn gostwng yn raddol rhwng 2026/27 a 2029/30, yn gysylltiedig â diwygiadau ehangach i gyllid cyfalaf Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI). Ar ôl 2026/27, bydd cyllid cyfalaf UKRI a ddarperir drwy Research England yn canolbwyntio ar gynnal cyfleusterau presennol, gyda chyllid ar gyfer offer a seilwaith newydd yn cael ei ddarparu drwy alwadau cystadleuol ledled y DU o dan arweiniad cynghorau ymchwil UKRI.
4. Disgwylir i ddyraniadau dangosol HERC yr Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach i Gymru leihau dros gyfnod yr adolygiad gwariant, o £3.99 miliwn yn 2026/27 i £2.44 miliwn erbyn 2029/30.
5. Er mwyn rhoi amser i Lywodraeth Cymru, Medr a'r SAU addasu i'r newidiadau hyn, mae'r Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach wedi sicrhau swm atodol at ddyraniadau HERC i Gymru am amser cyfyngedig. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi'i gynnwys yn y dyraniadau ar gyfer 2026-2027, gan ganiatáu gostyngiad arafach er mwyn cefnogi'r cyfnod pontio.
6. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd HERC yn cael ei gyfyngu i waith cynnal a chadw yn unig; bydd SAU yng Nghymru yn parhau i fod â'r hyblygrwydd i wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut i fuddsoddi HERC yn eu seilwaith ymchwil.

Defnyddio cyllid

7. Mae'r cyllid a ddarperir o dan HERC yng Nghymru wedi'i fwriadu ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y seilwaith ffisegol ar gyfer ymchwil yn unig. Mae ymchwil yn cynnwys 'ymchwil gwyddonol' (sef ymchwil a datblygiad mewn unrhyw un o'r gwyddorau, gan gynnwys gwyddorau cymdeithasol neu dechnoleg (adran 6(1) o

¹Medr – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil; Cyngor Cyllido'r Alban; Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon); Research England.

Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965)) ac ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau.

8. Wrth benderfynu sut i ddefnyddio'r dyrniadau, dylai sefydliadau ystyried y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a nodir yng [Nghynllun Strategol Medr 2025-2030](#), Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru sydd ar ddod (i'w chyhoeddi yn hydref 2026) a'r [Strategaeth Arloesi \(Cymru'n Arloesi\)](#), a [Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg](#), [Strategaeth Ddiwydiannol](#) a [Strategaeth UKRI Llywodraeth y DU](#). Dylid ystyried hefyd sut y caiff cyllid ei ddefnyddio i gefnogi uchelgeisiau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Dyraniadau

9. Caiff cyllid Yr Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach a Llywodraeth Cymru eu dyrannu ar wahân:
- i) Dyrennir elfen Yr Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach o'r cyllid gan ddefnyddio data tair blynedd mwyaf diweddaraf yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar incwm Cyngor Ymchwil UKRI. Yn unol â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach gyda Medr a Llywodraeth Cymru, dylai cyllid ganolbwyntio ar gynnal adrannau rhagorol sydd â màs critigol i gystadlu'n fyd-eang a'r arbenigedd i weithio'n agos gyda busnesau, elusennau a gwasanaethau cyhoeddus.
 - ii) Caiff elfen Llywodraeth Cymru o'r grant ei dyrannu pro-rata i gyfuniad o'r [dyraniadau ymchwil cysylltiedig ag ansawdd](#) rheolaidd diweddaraf ynghyd ag incwm ymchwil arall a adroddwyd i gofnod cyllid HESA gan y darparwr yn 2022/23, 2023/24, a 2024/25. Defnyddiwyd y dyraniad ymchwil cysylltiedig ag ansawdd ar gyfer 2026/27 yn y fformiwla ariannu ar gyfer HERC 2026-27.

Trothwy ariannu

10. Er mwyn bodloni gofyniad yr Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach bod y gronfa'n cefnogi rhagoriaeth ac yn meithrin màs critigol, mae'r fformiwla'n cynnwys trothwy isaf o £100,000. Sefydliadau a gyfrifir i fod â dyraniadau sydd uwchlaw'r trothwy cymhwysedd hwn yn unig a fydd yn derbyn cyllid yn 2026-2027.
11. Gellir gweld y dyraniadau cyllid ar gyfer sefydliadau cymwys yn 2026-2027 yn **Atodiad A**.

Trefniadau monitro

12. Ym mis Chwefror 2026, cyflwynodd sefydliadau fanylion am eu blaenoriaethau ariannu HERC yn y dyfodol ar gyfer 2026-2027. Dylid cadarnhau'r buddsoddiadau hyn a chynlluniau posibl ar gyfer y dyfodol ar gyfer 2026-2027 drwy lenwi a chyflwyno'r ffurflen brisio yn **Atodiad B**.
- Dylai Rhan 1 o'r ffurflen brisio adrodd ar y defnydd o gyllid a gadarnhawyd yn 2026-2027, gan gynnwys cyfanswm costau buddsoddiadau mawr a ddefnyddiodd gyllid HERC fel cyfraniad. Dylai sefydliadau ddangos lle mae

cyllid HERC wedi galluogi a chymell capasiti ymchwil, wedi datblygu blaenoriaethau strategol, ac wedi caniatáu i sefydliadau gystadlu am gyllid ymchwil ac arloesi allanol yn fwy effeithiol.

- Dylid defnyddio Rhan 2 o'r ffurflen brisio i amlinellu blaenoriaethau gwariant ar gyfer 2027-2028 yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd rhagor o gyllid HERC ar gael.
- Rhaid dychwelyd **Atodiad B** i Medr erbyn **12 Chwefror 2027** fan bellaf.

13. Er mwyn cadarnhau bod HERC wedi'i wario'n llawn, gofynnir i sefydliadau cymwys gyflwyno'r ffurflen brisio Cadarnhau Gwariant yn **Atodiad C** erbyn **23 Ebrill 2027**. Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn ei gwneud yn glir a oes unrhyw gyllid nad yw wedi'i wario wedi'i ymrwymo'n llawn ac, os felly, erbyn pa ddyddiad y bydd yn cael ei wario'n llawn. **Gall Medr hawlio cyllid nad yw wedi'i wario sydd heb ei ymrwymo yn ôl.**
14. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gan SAU yn yr adroddiadau hyn yn sail i ofynion adrodd Medr ar gyfer Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2027 a'r Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach ym mis Mai 2027. Gallai methiant i ddarparu manylion digonol am brosiectau a gwariant ohirio cadarnhad o ddyraniadau cyllid yn y dyfodol, neu ddangos diffyg effaith bosibl ar gyfer buddsoddiad HERC yng Nghymru a allai wanhau'r ddadl dros barhau i ariannu.

Trefniadau talu

15. Fel y nodwyd yn **Atodiad A**, bydd cyllid yn cael ei ddosbarthu ar ffurf dau daliad ym mis Medi 2026 ac ym mis Ionawr 2027.

Gwybodaeth/ymatebion pellach

16. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Moss (ymchwil@medr.cymru).

Asesu effaith ein polisïau

17. Rydym yn sgrinio asesiadau effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym hefyd yn ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, y ddarpariaeth Gymraeg o fewn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl ar y nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch â gwybodaeth@medr.cymru am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch – Dyroniadau Cyllid 2026-2027

Sefydliad	Dyranid yr Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach	Dyranid Llywodraeth Cymru	Cyfanswm
Prifysgol De Cymru	£53,345	£145,272	£198,616
Prifysgol Aberystwyth	£427,792	£263,263	£691,056
Prifysgol Bangor	£211,995	£449,563	£661,558
Prifysgol Caerdydd	£2,136,710	£2,314,197	£4,450,908
Prifysgol Abertawe	£1,121,517	£701,698	£1,823,216
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	£34,194	£111,561	£145,756
Cyfanswm	£3,985,554	£3,985,554	£7,971,108

Proffil Talu 2026-2027

Sefydliad	Medi 2026	Ionawr 2027
Prifysgol De Cymru	£99,308.00	£99,308.00
Prifysgol Aberystwyth	£345,527.50	£345,527.50
Prifysgol Bangor	£330,779.00	£330,779.00
Prifysgol Caerdydd	£2,225,454.00	£2,225,454.00
Prifysgol Abertawe	£911,607.50	£911,607.50
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	£72,878.00	£72,878.00
Cyfanswm	£3,985,554.00	£3,985,554.00

Nodiadau:

1. Yn 2026-2027 rhaid i SAU gyrraedd trothwy o leiaf £100,000 pan gymhwysir y fformiwla er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cronfeydd safonol HERC.
2. Dyrennir cyllid yr Adran Busnes, Arloesedd, Gwyddoniaeth a Masnach gan ddefnyddio data tair blynedd mwyaf diweddar yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar grantiau'r Cyngor Ymchwil (www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/finances/income#research). Mae rhes 1i wedi'i heithrio.
3. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru ei ddyrannu pro rata i ddyroniadau ymchwil cysylltiedig ag ansawdd ar gyfer 2026/27, ynghyd ag incwm ymchwil arall a adroddwyd i gofnod cyllid HESA gan y darparwr yn 2022/23, 2023/24, a 2024/25.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government